# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Tŷ Wendy Bontnewydd**

**Neuadd Gymunedol Bontnewydd**
**Yr Hen Ysgol**
**Bontnewydd**
**Caernarfon**
**LL55 2UF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**10 Ebrill 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Lleolir Clwb Tŷ Wendy Bontnewydd yn Neuadd Gymunedol Bontnewydd yng nghanol Bontnewydd, Caernarfon. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am uchafswm o 49 o blant o dan 12 oed. Margaret Brister yw'r person cofrestredig a'r person â chyfrifoldeb. Yr oriau agor yw dydd Llun - ddydd Gwener (yn ystod y tymor) 1500 – 1800 ac (yn ystod y gwyliau a diwrnodau hyfforddi athrawon) 0800 – 1800. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gweithredu'n ddwyieithog.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac yn cael hwyl yn dysgu drwy chwarae. Mae'r staff yn groesawgar ac mae'n hawdd siarad â nhw. Mae'r amgylchedd dan do yn fawr ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth gydag ymroddiad ac ymrwymiad.

### 2. Gwelliannau

Mae'r person cofrestredig newydd wedi gwneud gwelliannau sylweddol ers yr arolygiad diwethaf i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r arolygiad blaenorol a chreu canlyniadau gwell i'r plant.

Ers yr arolygiad hwn, mae'r person cofrestredig wedi dangos ei bod wedi ystyried ein hargymhelliad y dylid ffurfioli sesiynau goruchwylio'r staff ac mae wedi creu a chyflwyno enghraifft i ni o dempled ar gyfer cofnodi problemau'n ymwneud â lles, hyfforddiant ac ymarfer y staff yn y dyfodol.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â chwblhau rhan un a dau o Ddatganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth.

Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â ffurfioli sesiynau goruchwylio'r staff a datblygu adnoddau amlddiwylliannol.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus. Mae ganddynt gydberthynas agos â'r staff. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol i ddatblygu eu dysgu drwy chwarae. Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus.

Roedd y plant yn gallu archwilio eu hardal chwarae yn ddirwystr a dewis y gweithgareddau roeddent am chwarae â nhw. Er enghraifft, clywsom y plant yn gofyn cwestiynau *'Auntie Margaret gawn ni'r draughts plîs?'* ac roeddent yn cael defnyddio'r cwpwrdd chwarae yn ddi-gwestiwn. Gwnaeth y plant fwynhau'r digwyddiad cymdeithasol amser cinio, gan ofyn cwestiynau i'w gilydd ac i'r staff ynglŷn â ble roeddent yn byw, pwy sy'n teithio â char a phwy sy'n teithio â bws. Gofynnodd un plentyn a oedd i fod i fynd gartref amser cinio i'r staff a allai aros ar gyfer sesiwn y prynhawn. Ymatebodd y staff i'r plentyn a chysylltwyd â rhieni'r plentyn i ofyn am ganiatâd i'r plentyn aros. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau dod i'r clwb gan fod gemau da i chwarae â nhw a gan fod *'Auntie Margaret'* yn caniatáu iddynt greu cuddfannau. Dywedodd plentyn wrthym ei fod wir yn mwynhau bwyta'r byrbrydau yn enwedig y ffrwythau wedi'u torri gan fod y staff yn eu cadw'n oer yn yr oergell.

Mae'r plant yn cyfathrebu'n gadarnhaol ac yn mynegi eu hunain gyda hyder.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae gan y plant gydberthynas agos â'r staff.

Cafodd y plant eu canmol gydag iaith gadarnhaol drwy gydol eu gweithgareddau ac roedd hyn yn gwneud iddynt deimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain. Aethant at aelodau o'r staff yn hawdd a chawsant sicrwydd yn ôl yr angen. Er enghraifft, pan oedd plentyn wedi brathu ei wefus, gwnaeth yr aelod o'r staff ei gofleidio a rhoi clwt gwlyb ar ei wefus. Gwnaeth y plentyn setlo'n gyflym a pharhaodd i chwarae gyda'i ffrindiau'n hapus. Yn ystod gweithgaredd crefft gofynnodd plentyn i'w ffrind ac i'r staff beth dylai ei wneud gan ei fod yn teimlo'n nerfus pan oedd angen iddo ganu yn yr ysgol. Dywedodd ei ffrind wrtho mai'r peth gorau iddo ei wneud oedd edrych allan o'r ffenestr ac awgrymodd aelod o'r staff y dylai *'edrych ar mam'*. Gwenodd y plentyn a nodio.

Mae'r plant yn teimlo'n hapus, yn ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu bod yn cael gofal cadarnhaol ac ymatebol.

## 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r rheini sy'n gofalu amdanynt.

Anogwyd y plant i ddangos cwrteisi drwy gydol y sesiwn. Roeddent yn sgwrsio â'r staff a'u ffrindiau mewn ffordd hapus a bodlon. Roedd y plant yn cydweithredu'n gadarnhaol, er enghraifft, yn ystod gweithgaredd pobi gwnaethant gymryd eu tro i bwyso'r cynhwysion a sgwpio'r menyn i mewn i'r bowlen. Cymerodd pob plentyn ei dro i gymysgu'r cynhwysion â llwy bren. Helpodd y plant hŷn eu ffrindiau iau i gracio'r wyau ac ychwanegu'r blawd. Gwnaeth y plant rannu'r topins, gan ddweud wrthym eu bod yn addurno cwci i ni. Ar ôl amser cinio cydweithiodd y plant yn dda i roi eu sbwriel yn y bin a thacluso.

Mae'r plant yn cydweithio ac yn dysgu i rannu a chymryd eu tro yn dda gan eu bod yn cael cymorth cyson.

## 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol i ddatblygu eu dysgu drwy chwarae.

Dangosodd y plant wrthym sut roeddent yn lliwio gwahanol gymeriadau ar dempledi a oedd wedi'u torri allan. Rhannwyd y deunyddiau crefft a defnyddiwyd detholiad o gliter lliwiau gwahanol i addurno eu ffigyrau. Cododd un plentyn ei waith celf a dywedodd wrthym *'mam fi ydy hwn'*. Roeddent yn siarad â'r staff am yr hyn roeddent wedi bod yn ei wneud dros wyliau hanner tymor a siaradodd un plentyn yn fyrlymus am symud tŷ. Roedd gan y plant amrywiaeth o gyfleoedd i gyfeirio eu chwarae eu hunain, er enghraifft, gwnaeth dau ffrind ddyfeisio gêm dyfalu pwy drwy dynnu llun eitemau â sialc ar fyrddau du unigol. Gwnaethant gymryd eu tro i ofyn beth oedd llythyren gyntaf yr eitem a ph'un a allech ddod o hyd iddi gartref neu yn y sw. Roedd llawer o chwerthin wrth iddynt geisio dyfalu'n gywir. Roedd y plant yn gallu archwilio eu hardal chwarae yn ddirwystr, er enghraifft, roedd rhai o'r plant yn mwynhau gwisgo i fyny mewn amrywiaeth o wisgoedd gwahanol, roedd un plentyn yn cerdded o amgylch â balchder wrth wisgo ffrog tywysoges sidan binc gan ddal llaw ei ffrind. Roedd plant eraill yn chwarae'n ddychmygus yn y gornel cartref yn sgubo'r llawr ac yn gwthio'r troli lanhau wrth iddynt gerdded o amgylch eu hardal chwarae. Roedd y plant yn ymgysylltu â'u gweithgareddau ac yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd pobi gwnaethant baratoi'r cynhwysion yn ofalus, dangoswyd i ni sut roeddent yn rholio toes y bisgedi allan a defnyddiwyd y torrwr siâp calon. Gwnaethant sôn am liwiau gwahanol yr addurniadau a gosodwyd y malws melys yn ofalus ar yr eisin lliw. Wrth chwarae yn yr awyr agored roedd y plant yn datblygu eu sgiliau corfforol ac yn ymarfer eu sgiliau cydbwyso wrth iddynt gamu ar draws teiars meintiau gwahanol.

Mae'r plant yn awyddus i ddangos a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud gan eu bod yn cael gweithgareddau diddorol ac ysgogol.

## 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus.

Roedd gan y plant hyder i ddefnyddio'r toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn annibynnol. Roedd rhai plant yn mwynhau chwarae ar eu pen eu hunain yn y gornel adeiladu gan adeiladu tŵr tal allan o friciau adeiladu. Roeddent yn helpu eu hunain i ddŵr ac yn arllwys eu diodydd eu hunain. Dangosodd y plant wrthym sut y gallent wisgo eu ffedogau a darllen y rysáit heb fawr ddim cymorth. Gwnaethant chwarae'n hapus ac yn annibynnol yn y gornel ddysgu a ddewiswyd ganddynt. Gwisgodd y plant eu hesgidiau a'u cotiau'n hyderus cyn mynd allan i chwarae.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus â hyder gan eu bod yn cael cyfleoedd effeithiol i wneud hynny.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn rheoli'r rhyngweithio yn gyson ac yn deg. Mae'r staff yn trefnu gweithgareddau diddorol i ddatblygu dysgu'r plant ac yn rhoi gofal ymatebol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn hyrwyddo arferion iach. Roedd dŵr yfed ar gael yn barod drwy'r dydd er mwyn sicrhau bod y plant yn cael digon i'w yfed. Rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o 5 (da iawn) i'r gwasanaeth gan yr asiantaeth safonau bwyd yng Ngwynedd ym mis Mehefin 2017. Roedd y staff yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta byrbryd, ar ôl defnyddio'r toiled a chyn gweithgareddau pobi. Roedd hyfforddiant diogelu'r staff yn gyfredol. Pan wnaethom ofyn iddynt pa weithdrefnau y byddent yn eu dilyn os oedd ganddynt bryderon ynghylch plentyn yn eu gofal, dywedwyd y gweithdrefnau cywir wrthym o ran pa rai y byddent yn eu dilyn yn unol â'r polisi diogelu ar gyfer y gwasanaeth. Roedd y staff yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod gweithgareddau ac wrth fynd gyda nhw i'r toiled. Roedd gan yr aelodau o staff gymwysterau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, a oedd yn eu galluogi i roi cymorth cyntaf yn briodol, neu ymdrin ag unrhyw faterion meddygol a allai godi. Roedd gwiriadau diogelwch tân a driliau tân wedi'u cynnal yn rheolaidd a chafodd y rhain eu cofnodi, gan helpu'r plant a'r staff i ddysgu beth oedd angen iddynt ei wneud pe bai angen gadael y safle mewn argyfwng. Roedd damweiniau a digwyddiadau'n cael eu cofnodi, ac roedd y rhain wedi'u llofnodi gan y staff a'r rhieni. Roedd y staff yn annog y plant i chwarae yn yr awyr agored er mwyn iddynt ddatblygu eu sgiliau corfforol a synhwyraidd wrth chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn dda er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn deg ac yn gyson.

Rhyngweithiodd y staff yn dda â'r plant gan siarad â nhw yn ystod eu gweithgareddau mewn ffordd gyfeillgar a thyner. Gwnaethant egluro i'r plant mewn ffordd amyneddgar yr hyn roeddent yn ei ddisgwyl ganddynt ac roeddent yn fodelau rôl o ymddygiad da eu hunain. Gwnaeth y staff ganmol y plant gydag iaith gadarnhaol a'u hannog i ddweud *'os gwelwch yn dda'* a *'diolch'.*

Mae'r staff yn creu amgylchedd cyfeillgar a thawel i'r plant lle maent yn dysgu parchu ei gilydd ac yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn trefnu gweithgareddau diddorol i ddatblygu dysgu'r plant ac yn rhoi gofal ymatebol.

Roedd y staff wedi rhoi rhai o egwyddorion y cwricwlwm cyfnod sylfaen ar waith ac wedi rhoi meysydd dysgu penodol i'r plant ddewis ohonynt. Er enghraifft, roeddent wedi paratoi cornel gwisgo i fyny yn ddeniadol ac wedi darparu detholiad o glustogau, deunyddiau a blancedi meddal er mwyn galluogi'r plant i adeiladu eu cuddfannau eu hunain. Cynigiwyd sawl gweithgaredd crefft a phen bwrdd i'r plant ac roedd y staff yn cymryd rhan ynddynt ochr yn ochr â'r plant. Gwnaethant annog y plant i ddysgu drwy ofyn cwestiynau iddynt a chynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae. Gwelsom y staff yn helpu'r plant i wella eu hyder â rhifau drwy bwyso cynhwysion i'w pobi. Roedd y staff yn gwneud y chwarae a'r dysgu yn hwyl ac roedd hyn yn amlwg wrth i'r plant chwarae'n hapus gyda'r rhai a oedd yn gofalu amdanynt a gyda'u ffrindiau. Er enghraifft, ymunodd y staff mewn gêm o '*stop the bus*' ac anogwyd y plant i wneud rhestr dymuniadau ar gyfer cyfarpar newydd. Roedd y staff yn ymateb pan oedd angen rhoi tawelwch meddwl i'r plant ac roedd hyn yn helpu i ddiwallu anghenion unigol y plant.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau hwylus i'r plant i'w helpu i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu a mwynhau gwneud hynny.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer pob un sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r adnoddau a'r teganau o ansawdd da.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd gan yr arweinwyr system ar gyfer rheoli mynediad i'r safle, ac roedd cofnod o ymwelwyr yn cael ei gadw. Roedd y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben. Roedd asesiadau risg wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod risgiau posibl i'r plant wedi'u nodi a'u dileu lle bo hynny'n bosibl. Roedd yr arweinwyr hefyd wedi sicrhau eu bod wedi cynnal asesiadau risg ar gyfer y bobl a oedd yn gosod y rheiddiaduron newydd. Roedd gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol yn cael eu cofnodi. Roedd yr amgylchedd yn lân. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwnaethant oruchwylio'r plant yn dda yn ystod gweithgareddau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac y caiff y staff eu defnyddio mewn ffordd sy'n rhoi goruchwyliaeth gyson er mwyn sicrhau diogelwch y plant.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd wedi'i drefnu'n dda.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd cefnogol a oedd yn rhoi ystyriaeth i ddiddordebau ac anghenion unigol y plant. Roedd yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn arddangos gwaith celf y plant. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant le i roi eu heiddo personol gan wneud iddynt deimlo eu bod yn perthyn yno. Roedd y celfi yn briodol ar gyfer cam a datblygiad y plant ac roedd yr amgylchedd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae priodol. Roedd y teganau a'r adnoddau yn cael eu storio ar lefel isel, a olygai bod y plant yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd. Roedd yr arweinwyr wedi gweithio'n dda gyda rhanddeiliaid i gael cegin, rheiddiaduron a thoiled newydd wedi'u gosod er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd effeithiol i ddiwallu anghenion y plant sy'n cael gofal.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod teganau ac adnoddau o ansawdd da ac yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau dysgu a chwarae i'r plant.

Roedd yr ystafell chwarae dan do wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, ac roedd adnoddau synhwyraidd i helpu'r plant i ymarfer defnyddio eu synhwyrau. Roedd yr arweinwyr wedi gwneud yn siŵr bod y plant yn gallu symud yn rhydd o gwmpas y lle er mwyn dewis y gweithgareddau oedd o ddiddordeb iddynt. Roedd diffyg adnoddau i godi ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod cyfarpar a theganau o ansawdd da ar gael i'r plant. Roedd yr ardal chwarae yn yr awyr agored yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol. Er enghraifft, gwelsom y plant yn trefnu eu gêm pêl-droed eu hunain, yn chwarae ar siglenni, yn dringo, yn rhedeg o amgylch ac yn mwynhau eistedd ar fainc yn siarad â'r staff wrth iddynt wylio eu ffrindiau yn chwarae ar y sleid. Roedd digon o adnoddau ar gael yn yr ardal chwarae dan do a'r ardal chwarae yn yr awyr agored i sicrhau bod gan y plant amrywiaeth a dewis diddorol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn gallu gwneud dewisiadau diddorol o amrywiaeth o deganau ac adnoddau o ansawdd da sydd ar gael.

# 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth gydag ymroddiad ac ymrwymiad. Mae ganddynt system i werthuso'r gwasanaeth ac mae adroddiad cynhwysfawr ar yr adolygiad o ansawdd gofal wedi cael ei gwblhau. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff a'r adnoddau mewn modd derbyniol. Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a'r ysgol.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth gydag ymroddiad ac ymrwymiad.

Mae'r person cofrestredig newydd wedi gweithredu i fynd i'r afael â materion diffyg cydymffurfio a godwyd yn yr arolygiad blaenorol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae hyn yn sicrhau bod gan rieni yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch y gofal a gynigir. Nid oedd rhan un na dau o Ddatganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth wedi'u cwblhau cyn i'r person cofrestredig newydd gael ei benodi. Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio ar yr achlysur hwn gan nad oeddem wedi nodi bod hyn yn cael effaith andwyol ar lesiant y plant. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ac roedd y rhain yn cael eu gweithredu. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac maent yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn dda ac maent yn rhagweithiol wrth wneud gwelliannau

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr wedi adolygu ansawdd y gofal.

Mae'r arweinwyr wedi cynnwys y sylwadau a gafwyd gan bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac wedi nodi'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a meysydd yr hoffent eu datblygu er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant yn y dyfodol. Nododd yr arweinwyr hefyd sut y mae'r plant yn gallu gwneud cais am deganau ac adnoddau newydd yn wythnosol a bod y rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu prynu ar gyfer yr wythnos ganlynol. Dywedodd yr arweinwyr wrthym bod rhestr dymuniadau plentyn am offer awyr agored wedi galluogi iddynt sicrhau grant gan yr awdurdod lleol i allu prynu adnoddau i wella cyfleoedd chwarae yn yr awyr agored. Dywedodd yr arweinwyr fod yr holiaduron rhieni a ddychwelwyd yn gadarnhaol ac nad oeddent wedi gwneud unrhyw sylwadau o ran gwella'r gwasanaeth.

Mae gan yr arweinwyr system effeithiol o werthuso'r gwasanaeth ac maent yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rheoli ac yn cefnogi'r staff yn dda.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth am eu bod yn teimlo bod yr arweinwyr yn eu cefnogi a'u bod yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Gwnaethom archwilio ffeiliau dau aelod o'r staff a ffeil un gwirfoddolwr. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod gan y staff dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd ganddynt rolau wedi'u ddiffinio, roedd ganddynt gymwysterau addas ac roedd eu hyfforddiant yn gyfredol. Roedd yr arweinwyr hefyd wedi rhoi system ar gyfer cofnodi arfarniadau ar waith. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu goruchwylio ond nid oedd unrhyw gofnod o hyn. Dylai'r arweinwyr ystyried ffurfioli'r oruchwyliaeth unigol gan gofnodi sesiynau a chynnig cyfle i'r staff drafod eu lles, materion yn ymwneud ag ymarfer, datblygiad, anghenion hyfforddi a syniadau i wella'r gweithgareddau a'r gofal a ddarperir i'r plant. Gwnaethom edrych ar gofnodion personol pedwar plentyn, ac roedd y rhain yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Roedd yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff a'r adnoddau yn gadarnhaol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn meithrin partneriaethau cadarnhaol.

Gwnaethom siarad â'r rhieni, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a ddarperir i'r plant. Dywedodd un rhiant wrthym fod y staff yn hawdd mynd atynt ac yn hawdd cysylltu â nhw. Dywedodd rhieni eraill bod eu plant wrth eu bodd yn mynychu a'u bod yn gofyn am gael mynd i'r clwb yn ystod cyfnodau gwyliau. . Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn gweithio'n dda gyda'r ysgol a bod y Pennaeth yn gefnogol iawn. Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau grant ar gyfer offer awyr agored a bydd hyn yn helpu i wella canlyniadau i'r plant. .

Mae'r arweinwyr yng Nghlwb Tŷ Wendy, Bontnewydd yn meithrin partneriaethau effeithiol gyda'r rhieni a'r ysgol er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Gwnaethom hysbysu'r person cofrestredig nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliad canlynol. Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio gan na wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth fod hyn yn cael effaith ar lesiant y plant ar yr achlysur hwn.

**Rheoliad 17 o *Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010* ("Rheoliadau 2010"): Asesiad o'r gwasanaeth:** rydym wedi hysbysu'r person cofrestredig bod yn rhaid iddi gwblhau rhan un a dau o ddatganiad hunanasesu'r gwasanaeth (SASS) a'u dychwelyd at AGC (Adran 44 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac adrannau 60 (1) (b) a 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006) er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol eu cofrestriad yn llawn.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai'r arweinwyr ystyried:

- Ffurfioli'r oruchwyliaeth unigol gan gofnodi sesiynau a chynnig cyfle i'r staff drafod eu lles, materion yn ymwneud ag ymarfer, datblygiad, anghenion hyfforddi a syniadau i wella'r gweithgareddau a'r gofal a ddarperir i'r plant, a

- Datblygu adnoddau amlddiwylliannol er mwyn helpu'r plant i ddysgu am eu cymdeithas ehangach.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ddydd Llun, 27 Chwefror 2019 rhwng 0815 a 1455.

Gwnaethom:

- Arolygu sampl o ddogfennau, polisïau, ffeiliau dau aelod o'r staff, ffeil gwirfoddolwr a chofnodion personol pedwar o'r plant;
- arsylwi ar arferion;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir, y teganau, yr adnoddau a'r amgylchedd;
- siarad â'r plant, y staff, y person cofrestredig a thri rhiant a
- gwnaethom roi adborth i'r person cofrestredig.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| **Person Cofrestredig** | Margaret Brister |
| **Person â chyfrifoldeb** | Margaret Brister |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | 49 |
| **Ystod oedran y plant** | O dan 12 oed |
| **Oriau agor** | Dydd Llun i ddydd Gwener (yn ystod y tymor) 3pm - 6pm ac (yn ystod y gwyliau a diwrnodau hyfforddi athrawon) 8am - 6pm. |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | Y ddwy |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | 16 Rhagfyr 2015 |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | 27 Chwefror 2019 |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | Nac ydy |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | Nac ydy |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

N